Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru




# Canllawiau Themâu Trawsbynciol

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru**

**Blaenoriaeth Echel 5: Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus a Gweithio Rhanbarthol**

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfeydd yr UE:**
**Buddsoddi yng Nghymru**
**EU Funds:**
**Investing in Wales**

# Canllawiau Themâu Trawsbynciol

## Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru

## Blaenoriaeth Echel 5: Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus a Gweithio Rhanbarthol

1. Yr allwedd i raglenni ESF yw pwyslais Llywodraeth Cymru ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl a chymunedau; tegwch a chyfiawnder cymdeithasol; a sut y mae'r penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud yn awr yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol yn ogystal â chenedlaethau'r presennol.

2. Mae'r Flaenoriaeth Echel hon yn canolbwyntio ar amcan thematig (11) - Datblygu Capasiti Sefydliadol.[1]

- Asesu capasiti a galluogrwydd sefydliadol, a datblygu a chyflawni cynlluniau datblygu'r gweithlu.

- Cefnogi'r gwaith o ad-drefnu trefniadau llywodraethu Rhanbarthol i sicrhau swyddogaethau cynrychioliadol a chynhwysol ym maes cynllunio a phenderfynu.

### Cyd-destun Cefndirol

3. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010[2] yn darparu amddiffyniad rhag gwahaniaethu ar gyfer unigolion a grwpiau sy'n rhannu 'nodweddion gwarchodedig', tra bo Dyletswydd Gydraddoldeb y Sector Cyhoeddus[3] yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol bobl wrth gyflawni eu swyddogaethau.

4. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu sawl nod llesiant i gyrff cyhoeddus yng Nghymru, er enghraifft, Cymru fwy llewyrchus, Cymru Iachach a Chymru fwy cyfartal. [4] Gan fod pob un o'r nodau llesiant hyn yn ceisio crisialu uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru'r dyfodol, maent o reidrwydd yn ddyheadol. Nid ydynt yn sefydlu targedau penodol ar gyfer

---

[1] https://gweddill.gov.wales/docs/wefo/publications/190312-esf-wwv-operational-prog-v3.1-en.pdf

[2] https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=3&cad=rja&uact=8&ved=2ahUKEwje5PH8s_LgAhVqUhUIHUpMDuEQFjACegQICBAL&url=https%3A%2F%2Fwww.gov.uk%2Fguidance%2Fequality-act-2010-guidance&usg=AOvVaw3fqeukLyH54bNLsT3iYTx5

[3] https://www.citizensadvice.org.uk/law-and-courts/discrimination/public-sector-equality-duty/what-s-the-public-sector-equality-duty/

[4] https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=2&cad=rja&uact=8&ved=2ahUKEwjPh5iSsvLgAhWvSRUIHel8B3QQFjABegQIBxAF&url=https%3A%2F%2Fgov.wales%2Ftopics%2Fpeople-and-communities%2Fpeople%2Ffuture-generations-act%2F%3Flang%3Den&usg=AOvVaw2970HUKBxnnievAilAdsor

polisi cyhoeddus ond yn hytrach maent yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus bennu amcanion ar gyfer darparu gwasanaethau lleol a fydd yn manteisio ar eu cyfraniad at gyflawni'r nodau llesiant.

5. Mae Llywodraeth Cymru am i Gymru fod yn genedl wirioneddol ddwyieithog ac mae wedi gwneud ymrwymiad yn ‘Cymraeg 2050 – miliwn o Siaradwyr’, y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog a'i Gynllun Cynllun Iaith Gymraeg i brif ffrydio'r Gymraeg ar draws meysydd polisi.

6. Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith ar gyfer cyrff y Sector Cyhoeddus, rhai cwmnïau preifat a sefydliadau'r trydydd sector i gydymffurfio â safonau, ac yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i gwmni neu sefydliad gydymffurfio â safon. Yng nghyd-destun ESF blaenoriaeth 5 a anelir yn bennaf at gyflawni yn y sector cyhoeddus, y mae mesurau'r Gymraeg yn gymwys iddynt, dylid rhoi sylw penodol i gefnogi gweithlu dwyieithog.

7. Mae gwybodaeth fanwl am sut y gall cyrff cyhoeddus a chyrff y Goron, cwmnïau preifat a chyrff y trydydd sector gydymffurfio â'r safonau a rhestr o'r mathau o gwmnïau preifat a chyrff y trydydd sector sy'n dod o dan y Mesur i'w gweld ar Wefan Comisiynwyr y Gymraeg. [5]

8. Disgwylir i bob ymyriad dangos eu bod yn cyd-fynd â'r nodau ac â'r pum ffordd gysylltiedig o weithio. Fel man cychwyn i ddatblygu cynnig, dylid ymchwilio i'r potensial ar gyfer gweithgarwch i gyfrannu at y nodau llesiant, ac ymgynghori arnynt (fel rhan o asesiad effaith ehangach a ddylai gynnwys ond nad yw'n gyfyngedig i: gydraddoldeb, asesiad amgylcheddol, plant a phobl ifanc ac asesiad Cymraeg) a'i drosi'n weithgarwch y gellir ei darparu.

9. Cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) ei adroddiad ar gyflwr y genedl ar gydraddoldeb a Hawliau Dynol ‘A yw Cymru'n Decach?’ yn 2018. Mae'r adroddiad yn dwyn ynghyd tystiolaeth i asesu lefelau anghydraddoldeb yng Nghymru a'r cynnydd a wnaed ers yr adroddiad diwethaf yn 2015. Mae'n nodi ystod eang o argymhellion i fynd i'r afael â heriau cydraddoldeb a hawliau dynol ac yn galw ar bob corff i chwarae ei ran wrth wella profiadau a chyfleoedd pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru. Disgwylir ymyriadau, lle bo'n briodol, i gyfrannu at fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau allweddol a nodir yn ‘A yw Cymru'n Decach’ 2018.[6]

### Themâu Trawsbynciol

10. Nodir yn yr egwyddorion arweiniol ar gyfer dewis gweithrediadau y dylai'r ymyriadau geisio integreiddio canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, yn gyson â phrif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru o

[5] http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/english/commissioner/law/the%20welsh%20language%20(wales)%20measure%202011/Pages/The-Welsh-Language-(Wales)-Measure-2011.aspx

[6] www.eqaulityhumanrights.com/en/publication-download/wales-fairer-2018

ddatblygu cynaliadwy a chyfrannu at ganlyniadau'r themâu trawsbynciol (CCTs).

11. Nod y CCTs yw gwella ansawdd a threftadaeth pob gweithrediad a gefnogir gan y Cronfeydd Strwythurol ac ychwanegu gwerth at y rhaglenni yn eu crynswth. Bydd hyn yn gofyn am gamau gweithredu mewn amryw o feysydd a bydd yn rhan annatod o'r gwaith o ddylunio a chyflawni'r holl weithrediadau. Mae tri CCT:

- Cyfle Cyfartal, Prif Ffrydio Rhywedd (cynhwysir y Gymraeg yng Nghymru)
- Datblygu Cynaliadwy; a
- Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol

12. Mae'r ddwy CCT gyntaf hyn yn orfodol o dan Reoliadau'r UE. Mae trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol wedi'u cynnwys fel CCT ychwanegol yn unol â'r ymrwymiadau allweddol Llywodraeth Cymru a nodir yn ei Chynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Mae'r canllawiau llawn am Themâu Trawsbynciol i'w cael yn https://gweddill.gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/wefo-guidance/cross-cutting-guidance/?lang=en

## Datblygu Cynaliadwy

13. Fel rhan o'r rhaglenni ESF yng Nghymru, cynhaliwyd ymarfer sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol gan werthuswyr allanol. Trwy fesurau anuniongyrchol, ar lefel unigol neu sefydliadol, a thrwy sicrhau bod gweithrediadau'n mabwysiadu arferion ac egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth gyflawni gweithgarwch ESF, casglodd yr adroddiad y bydd buddsoddiadau'n gallu cefnogi egwyddorion ac amcanion cyffredinol Llywodraeth Cymru ym maes Datblygu Cynaliadwy. Gallai camau gweithredu sy'n briodol ar gyfer y flaenoriaeth hon gynnwys:

- Hybu atebion trafnidiaeth gynaliadwy
- hybu effeithlonrwydd adnoddau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni a rheoli gwastraff (gan gynnwys ailgylchu) wrth gyflawni a rhoi gweithrediadau ar waith
- Cefnogi'r gwaith o rannu adnoddau a defnyddio cadwyni cyflenwi lleol

## Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw

14. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)[7] sy'n cyd-fynd â'r rhaglen hon, yn darparu asesiad cadarn o anghenion y rhai a allai fod mewn perygl o anfantais neu wahaniaethu neu o gael eu hallgáu o ganlyniad i un neu ragor o'r nodweddion sy'n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'u hanghenion penodol o safbwynt cefnogi mynediad at waith a sgiliau. Mae'r nodweddion gwarchodedig hyn yn cynnwys oedran (gan gwmpasu pob grŵp

[7] https://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/programme-evaluations/equality-impact-assessments/?lang=en

oedran), anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil ac ethnigrwydd, crefydd neu gred, rhyw / rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol. Roedd yr effaith ar gyfer y Gymraeg hefyd yn rhan o'r asesiad hwn.

15. Mae adroddiad EqIA yn casglu bod datblygu rhaglenni ESF 2014-20 wedi cynnwys rhoi ystyriaeth helaeth i gydraddoldeb ac oherwydd hyn mae'n dra annhebygol y bydd unrhyw effeithiau negyddol anghymesur ar unrhyw rai o'r nodweddion a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ac y bydd yn cefnogi'r Gymraeg fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

16. Mae camau gweithredu penodol wedi'u cymryd i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i atal gwahaniaethu wrth baratoi, cynllunio a rhoi'r rhaglen weithredol ar waith, yn enwedig y gofynion ar gyfer sicrhau hygyrchedd i bobl ag anableddau ac i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a menywod i sicrhau persbectif rhywedd ar lefel weithredol. Gallai camau gweithredu sy'n briodol ar gyfer y flaenoriaeth hon gynnwys:

- Dulliau gweithredu newydd sy'n galluogi sefydliadau i arloesi a chydweithio mewn rhanbarth i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn hygyrch ac yn deg â phawb.
- Cymorth i weithgarwch sy'n meithrin capasiti a galluogrwydd y gweithlu
- Camau gweithredu i sicrhau bod ffyrdd rhanbarthol newydd o weithio wrth iddynt gael eu sefydlu'n hybu cyfle cyfartal i staff a gweithleoedd cynhwysol.
- Achub cyfleoedd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o fewn ffyrdd rhanbarthol newydd o weithio, wrth ddarparu gwasanaethau a meithrin capasiti

**Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol**

17. Adlewyrchir yr ymrwymiad i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a threchu tlodi trwy gynnwys CCT a'r strategaeth ar gyfer rhaglenni ESF wedi'i ddatblygu yn unol â'r dull gweithredu cyffredinol hwn. Yr amcanion CCT allweddol ar gyfer trechu tlodi yw:

- Creu swyddi a thwf gan gynnig cyfleoedd cyflogaeth i'r rhai sydd allan o waith
- Chwalu rhwystrau i gyflogaeth megis sgiliau gwael, diffyg gofal plant neu ddewisiadau trafnidiaeth cyfyngedig, helpu mwy o bobl i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth; a
- Canolbwyntio ar dwf ynghyd ag ymyriadau i ddatblygu sgiliau, gan alluogi'r rhai sy'n destun tlodi mewn gwaith i gael gafael ar swyddi medrus, gyda thâl uwch.

18. Wrth ddatblygu cynigion, disgwylir i weithrediadau fod wedi ystyried sut y mae eu gweithgarwch yn cefnogi amcanion CCT Trechu Tlodi. Gallai camau gweithredu sy'n briodol i'r flaenoriaeth hon gynnwys:

- Uwchsgilio ac adnewyddu sgiliau staff i'w helpu i elwa ar ffyrdd newydd o weithio

**Dangosyddion**

19. Y dangosyddion ar gyfer y flaenoriaeth hon ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru yw:

- Nifer o brosiectau sy'n targedu gweinyddiaethau cyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol
- Nifer o ddulliau, prosesau ac offer yn cael eu datblygu gyda chymorth
- Nifer o brosiectau sy'n cymryd rhan mewn prosiectau sy'n targedu gweinyddiaethau cyhoeddus neu wasanaethau cyhoeddus ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol

20. Nid oes unrhyw ddangosyddion allbynnau CCT penodol ar gyfer Blaenoriaeth 5 ond fel gyda'r rhaglenni ESF ehangach, bydd Dangosyddion Lefel Achos (Prosiect) CCT yn gymwys. Gellir eu gweld yn **Atodiad 1.**

21. Disgwylir i weithrediadau nodi yn eu Cynllun Busnes pa ddangosyddion lefel Achos CCT y byddant yn cyfrannu atynt ac, os bydd yn briodol, awgrymu rhai ychwanegol y gellir eu hychwanegu at y rhestr a fydd yn dangos eu cyfraniad at CCT. Nid oes unrhyw ofynion tystiolaeth ffurfiol ar gyfer y dangosyddion hyn gyda gwaith cyflawni'n cael ei ddangos trwy rannu arferion da a hysbysu WEFO am enghreifftiau o astudiaethau achos.

**Atodiad 1**

**Dangosyddion Lefel Achos (Prosiect) Themâu Trawsbynciol**

Mae cynnwys targedau ffurfiol yn ysgogwr pwysig i annog prosiectau i fynd i'r afael â'r CCTs. Mae hefyd yn galluogi cynnydd i gael ei monitro yn systematig dros oes y rhaglen. Er hynny, yn 2014 /2015 cynhaliodd WEFO werthusiad o sut yr oedd y CCTs wedi'u hintegreiddio yn y rhaglenni a ariannwyd gan Ewrop 2007-2013. Un o'r materion allweddol a nodwyd o'r gwerthusiad oedd bod rhanddeiliaid (sef y rhai sy'n rhedeg prosiectau a'r rhai sy'n cyflawni gweithgarwch) am gael ffordd well o dangos eu bod yn llwyddo i gyflawni gweithgarwch a oedd yn cyfrannu at y CCTs. Y farn oedd bod y dangosyddion ffurfiol yn rhy amhendant ac yn aml ddim yn berthnasol i weithgarwch y prosiect. Mewn ymateb i'r adborth hwn, nodwyd dangosyddion CCT ychwanegol ar lefel prosiectau, sy'n galluogi WEFO i gyflawni ystod ehangach o weithgarwch. Mae dangosyddion ffurfiol yn dal yn berthnasol ond ni ddibynnir arnynt bellach i adrodd y stori gyfan o ran sut y mae prosiectau'n llwyddo i gyflawni gweithgarwch CCT.

Isod mae'r rhestr o ddangosyddion lefel prosiectau a nodwyd hyd yn hyn ond gellir ychwanegu at y rhain os cyflawnir gweithgarwch ychwanegol sydd heb ei restru. **Dim ond rhai fydd yn gymwys i'ch gweithrediad yn dibynnu ar y gweithgarwch yr ydych yn ei gyflawni:**

**Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhyw**

- Mesurau gweithredu cadarnhaol sy'n cefnogi menywod
- Mesur gweithredu cadarnhaol sy'n cefnogi pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig
- Mesurau gweithredu cadarnhaol sy'n cefnogi pobl ifanc
- Mesurau gweithredu cadarnhaol sy'n cefnogi gweithwyr hŷn
- Gweithredu cadarnhaol sy'n cefnogi pobl anabl
- Mesurau gweithredu cadarnhaol sy'n cefnogi gweithgareddau eraill sy'n herio gwahanu galwedigaethol
- Gweithgarwch Cyflog Cyfartal
- Gweithgarwch sy'n cefnogi cyfranogiad menywod mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg
- Gweithgarwch sy'n hyrwyddo'r Gymraeg
- Gweithgarwch sy'n cefnogi siaradwyr Cymraeg.
- Ymgysylltu â Grŵp Mynediad ar gyfer Pobl Anabl
- Cefnogi rhaglenni iechyd yn y gweithle
- Darpariaeth gofal plant
- Darpariaeth gofal arall

**Datblygu cynaliadwy**

- Datblygu Eco-god sefydliadol
- Datblygu'r gadwyn gyflenwi gynaliadwy leol
- Integreiddio seilwaith gwyrdd graddfa fach
- Integreiddio seilwaith glas graddfa fach
- Gweithgarwch sy'n cefnogi  bioamrywiaeth ar safle a ariennir drwy gronfeydd strwythurol
- Datblygu cynllun teithio sefydliadol a mentrau trafnidiaeth gynaliadwy
- Mesurau defnyddio adnoddau'n effeithlon
- Cynlluniau rheoli amgylcheddol ar gyfer safleoedd
- Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREAM) yn rhagorol, lle bo'n berthnasol
- BREEAM yn dda iawn, lle bo'n berthnasol
- Cyflawni CEQUALL ar gyfer gweithgarwch adeiladu
- Defnyddio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy lle bo'n berthnasol



**Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol**

- Gweithgarwch sy'n meithrin sgiliau yn y gymuned
- Gweithgarwch mentora / eirioli
- Gweithgarwch cefnogaeth gan gymheiriaid
- Cynlluniau gwirfoddoli
- Sefydliadau sy'n talu'r cyflog byw

**Themâu Trawsbynciol - Cyffredinol**

- Dangos arferion da wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Datblygu / Ymgysylltu â hyrwyddwyr CCT
- Integreiddio Cymalau Cymdeithasol mewn gweithgarwch
- Pecynnau Cymorth CCT, gwiriadau iechyd, Apiau mecanweithiau gwaelodlin etc.
- Datblygu pecyn hyfforddiant CCT
- Rhaglen hyfforddi staff ar CCT wedi'i chyflwyno
- Gweithgarwch sy'n cyfrannu at ddangosyddion ffurfiol CCT mewn blaenoriaethau / amcanion lle nad ydynt yn bresennol.




**I gael rhagor o wybodaeth:**

**www.llyw.cymru/ue-ariannu**

**@wefowales / @wefocymru**

**Llinell Gymorth 0845 010 3355**

Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru
EU Funds: Investing in Wales

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government